

Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Unwaith yn rhagor carwn eich gwahodd i dreulio ychydig o amser gyda mi'n ymdawelu ym mhresenoldeb yr Arglwydd. Nid yw pawb yn medru derbyn popeth ar-lein. Cofiwch am bobl felly a chofiwch y gallwch rannu'r "gwasanaeth" dros y ffôn gyda chyfaill a rhannu yng nghymdeithas yr Eglwys. Dau neu dri, a chwmni'r Iesu yn y canol. Dyna'r cyfan sydd ei angen!

THEMA – Felly y credasoch chwithau

GWEDDI

Arglwydd tirion a grasol, a wnei di ganiatáu i mi heddiw'r gallu i sylweddoli o'r newydd arwyddocâd dy groeshoeliad a'th atgyfodiad. Bod y groes yn fuddugoliaeth wedi ei hennill. Bod yr atgyfodiad yn fuddugoliaeth wedi'i chyhoeddi. Diolch bod maddeuant yn bosib, rhyddid yng Nghrist, derbyniad gan y Tad, yr Ysbryd Glân yn dod i fyw ynom, a'r gallu i fod mewn perthynas â thi yn ystod ein rhawd daearol ac am byth. Gad i mi ganfod fy modlonrwydd llwyr ynot ti.

Cyffeswn ein pechodau.....

Dirion Arglwydd maddau i ni ein dyledion a chlyw ni yn enw Iesu Grist, Amen.

EMYN – Caneuon Ffydd 552 Er gwaetha'r maen a'r gwylwyr.

DARLLEN – 1 Corinth 15:1-20: "felly y derbyniad chwithau".

MYFYRDOD

Beth yw diben pregethu? Wel, yn sicr yn y Beibl mae'n fwy na dim ond bod yn rhan o ddefod, yn rhan o drefn gwasanaeth, yn fwy na bwlch neu egwyl i'w lenwi gyda myfyrdodau penrhydd yr arweinydd! Yn ei hanfod cyhoeddi'r newyddion da, datgan yn hyderus, ymresymu, perswadio gyda'r bwriad o ddarbwylllo yw pregethu. Ac o fewn yr eglwys diben pregethu yw atgoffa pobl Dduw o'r pethau na ddylent fyth eu hanghofio.

Mae'n amser cymysgylid iawn i bawb ohonom. Mae ofn ac unigrwydd yn effeithio ar niferoedd ohonom a hynny i raddau nad ydym wedi eu profi o'r blaen. Mae'r Cofid 19 yn parhau i gerdded gan adael ei frath ar deuluoedd ac ar iechyd unigolion. Ac o ddarllen y newyddion dros yr wythnosau diwethaf byddwn yn credu bron nad oes unrhyw beth arall o unrhyw bwys wedi digwydd mewn

unrhyw le heblaw am Cofid 19. Dyma'r gelyn, y bwgan y bwystfil cudd sy'n bygwth difa gwareiddiad y byd.

Ond beth os nad gan y gelynydd oddi allan, yr ofnau oddi mewn na'r brwydrau sy'n ein dychymyg, mae'r gair olaf? Beth os oes gobaith gennym sy'n fwy nag angau? Nid rhith o obaith! Nid drych, nid dameg, nid dymuniad daearol neu ffantasi'n dychmygion. Beth os ydy Realiti Bywyd yn fwy na realiti marwolaeth? Bod Gallu egniol yr Atgyfodiad yn drech nag anobaith ein tranc. Beth os oes yna Fwriad mwy sy'n ymestyn drwy hanes y greadigaeth ar waith, ac wedi torri i mewn, ac ar draws hanes y byd yn Atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw?

Bwriad yr Apostol Paul wrth ysgrifennu at eglwys ddryslyd a chymysgylid Corinth oedd, "eich atgoffa, gyfeillion, am yr Efengyl a bregethais i chi ac a dderbyniad chwithau." A dyna sydd gennym yn y darlleniad heddiw.

Yr oedd atgyfodiad Iesu yn ganolog i'r neges. Dyma neges oedd yn "sylfaen eich bywyd" (ad. 1) sydd hefyd yn "foddion eich iachawdwriaeth." Mae'r sylfaen yn rhywbeth i adeiladu arno. Mae moddion yn llwyr i'w droedio, yn ffisig i'w lynu, yn driniaeth er iachâd. Oni bai fod hyn yn wir ofer oedd eu ffydd a'i chred.

Mae'n amlwg bod y Gwirionedd hwn ag effeithiau pellgyrhaeddol. Mae'r atgyfodiad yn cadarnhau i "Grist farw dros ein pechodau ni" i gyd. Cyflawniad disgwyliad yr Ysgrifurau Iddewig oedd hyn oll. Cyflawniad yr Ysgrifurau oedd ei atgyfodiad, a chafwyd tystion diogel, yn unigolion, mewn grwpiau bychain neu gyda dros 500 yn bresennol, neu mewn cyfarfyddiad personol grasol gyda'r Apostol Paul ei hun fyddai'n tystio i realiti'r bedd gwag.

Os na chyfodwyd Crist o'r bedd, "ofer" yw ein neges a'n ffydd. "Gwagedd" yw ein pregethu. "Tystion twyllodrus" a chelwyddog yw'r rhai sy'n cyhoeddi bedd gwag. Os na chyfodwyd Crist, ofer yw ein ffydd, yn ymdrybaeddu, yn gaeth, yn ein pechodau ydym,

a phobol wirioneddol "druenus" ydym. Ni yw'r rhai "trist iawn, very sad" chwedl Arthur Picton.

Ond y gwir yw hyn. Cododd Crist oddi wrth y meirw, blaenffwrth y cynhaeaf o obaith grymus, trawsnewidiol sy'n cerdded drwy'r byd. A'n braint, ein cadernid, ein ffydd, ein gobaith yw credu, cyhoeddi, pwyso a byw ynddo Ef drwy ffydd, mewn drych a dameg, ond yfory ... wyneb yn wyneb!

GWEDDI

Arglwydd Iesu Grist, rwyf am ddiolch i ti am ddod i'r byd i roi dy hun yn aberth ein cymod gyda Duw. Diolch i ti am ddod yn brynwr, yn rhyddhâwr caethion, yn fuddugwr. Diolch y medrwn ddweud "molwch ef, mae'r gad wedi troi". Bod holl alluoedd y nef a'r ddaear, bod ein holl elynion ni yn awr mewn cadwyn gan y Brenin mawr. A diolch i ti bod ein meidroldeb, a'n marwolaeth yn rhan o'r goncwest fawr a wnaed yn Iesu Grist. A diolch i ti pan aethpwyd i chwilio canfuwyd bedd gwag. Diolch nad yn ofer yr ydym wedi credu, nad twyllwyr oedd y rhai oedd yn tystio i atgyfodiad Iesu, nad gau oedd eu neges, nad gwag a disyllwedd yw ein ffydd. Diolch am neges sy'n fywyd ac yn heddi.

Arglwydd, gweddiwn eto heddiw dros bawb sy'n dioddef oherwydd yr aflwydd presennol. Cyflwynwn i ti yr unig, y trallodus, y galarus, y poenus a'r pryderus. Cyflwynwn i ti feddygon, nyrsys, glanhawyr ysbytai, pobl sy'n siarad gyda'r galarus, yn ceisio cynnig cysur, pawb yn ein bröydd sy'n cael eu heffeithio mewn ffyrdd nad ydym erioed wedi dychmygu.

Beth am gloi'n gweddiâu gydag
EMYN – Caneuon Ffydd 564
Mae Iesu'n fuddugol.

GWEDDI'R ARGLWYDD

EMYN – Caneuon Ffydd 547
Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw.

Y FENDITH